# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 01/02/2022

**Yn Bresennol:**

**Aelodau Cyngor Gwynedd:** Y Cynghorwyr Menna Baines, Judith Humphreys, Paul Rowlinson (Cadeirydd)

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill:** Eirian Bradley Roberts (Yr Eglwys Gatholig), Gwawr M Williams (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Eurfryn Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru)

**Athrawon:** Dim

**Swyddogion:** Garem P Jackson (Pennaeth yr Adran Addysg), Einir Rh Davies (Swyddog Cefnogi Aelodau), B Mair Huws (Swyddog Adnoddau Cynorthwyol a Chlerc CYSAG)

Cadarnhawyd, gan fod nifer o ymddiheuriadau ac absenoldebau nad oedd cworwm ac na fyddai modd i'r Pwyllgor wneud unrhyw benderfyniadau eto y tro hwn, ond y byddai y cyfarfod yn parhau a materion yn cael eu rhannu er gwybodaeth.

## 1. GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Y Cynghorydd Judith Humphreys.

## 2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cathryn Davey, Dashu, Cyng. Selwyn E Griffiths

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 4. MATERION BRYS

Cyfeiriodd y Cadeirydd at e-bost oedd wedi dod i law gan CCYSAGau Cymru yn holi am enwebiadau i'r Pwyllgor Gwaith, gyda dyddiad cau o 8 Ebrill, a chytunwyd i gylchredeg yr e-bost.

## 5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Oherwydd nad oedd cworwm, nid oedd modd i'r Cadeirydd gadarnhau cofnodion y ddau gyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8 Mehefin a 23 Tachwedd fel rhai cywir. Bydd y cofnodion yn cael eu llofnodi yn y cyfarfod nesaf.

## 6. CYNHADLEDD MAES LLAFUR CYTUNEDIG AR GYFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG O FEWN Y CWRICWLWM NEWYDD I GYMRU

Amlinellodd y Cadeirydd yr angen i bob Awdurdod Addysg sefydlu Cynhadledd fel endid ar wahân

i'r cyfarfod CYSAG ar gyfer yr uchod. Adroddwyd bod y Gynhadledd, sydd i'w chynnal ar y cyd gydag Ynys Môn wedi ei threfnu ar gyfer 15 Chwefror 2022 o dan arweiniad Phil Lord o GwE. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y Gynhadledd, a'r cyfle yma i gytuno ar y maes llafur. Cadarnhawyd bod angen i'r Pwyllgor lleol ystyried Canllawiau Llywodraeth Cymru, ac yna i ysgolion gymryd i ystyriaeth y maes llafur cytunedig.

Cyfeiriwyd at y Canllawiau oedd wedi eu paratoi gan y Llywodraeth, ynghyd â'r statws cyfreithiol. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar y canllawiau ac anogwyd cymaint o Aelodau CYSAG Gwynedd â phosib i fynychu Y Gynhadledd.

**PENDERFYNWYD**: Oherwydd nad oedd cworwm, nid oedd modd i'r Pwyllgor wneud penderfyniad ond rhannwyd y wybodaeth am y gynhadledd sydd i'w chynnal ar y cyd gydag Ynys Môn, o dan arweiniad Phil Lord o GwE.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG 2020-2021

Atgoffwyd yr aelodau bod yr adroddiad yn ystyried y flwyddyn academaidd Medi 2020 i Awst 2021, ac yn dilyn yr un patrwm â'r blynyddoedd a fu. O ganlyniad i'r pandemig roedd rhai materion na chawsant eu cwblhau, fel yr amlygir yn yr adroddiad. Nodwyd bod angen diweddaru yr aelodaeth. Atgoffwyd yr Aelodau bod nifer o faterion pwysig wedi eu trafod mewn cyfarfodydd CYSAG yn ystod y cyfnod, gan gynnwys Dyfodol Addysg Grefyddol ym Mhrifysgol Bangor, cyfethol disgyblion ar bwyllgor CYSAG a lles disgyblion yn ystod y cyfnod. Adroddwyd ar y pryder nad oedd modd trafod dogfennau ymgynghorol mewn pwyllgor, ond yn hytrach bod y gwaith hel ymatebion wedi gorfod cael ei wneud yn electroneg.

Edrychwyd ar argymhellion yr adroddiad a chytunwyd i'w haddasu gan dynnu allan y cyfeiriad at CBAC a'r sefyllfa arholiadau, cynnwys cyfeiriad at arweiniad pynciol a thynnu allan y frawddeg sydd yn sôn am wahodd Aelodau CYSAG i addoli ar y cyd mewn ysgolion, gan nad oedd modd i hyn ddigwydd.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r angen am lyfrau ar gyfer y maes llafur newydd, nodwyd eu bod yn cael eu comisiynu drwy CBAC, a'r gobaith y byddai y Gymraeg a'r Saesneg yn cyrraedd gyda'i gilydd. Nodwyd yr angen ychwanegol i fod yn wyliadwrus o ddeunydd oedd wedi ei baratoi y tu allan i Gymru gan fod y maes llafur yn wahanol.

Mewn ymateb i sylw am yr Aelodaeth, a'r ffaith mai dyma'r ail waith i'r Pwyllgor gyfarfod heb gworwm, cadarnhawyd y bydd Aelodaeth yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf Fforwm Undebau Athrawon ac y bydd yn cael ei drafod yn y Fforwm Penaethiaid maes o law, yn y gobaith o ehangu yr aelodaeth. O ran cynrychiolaeth o'r gwahanol grefyddau, cadarnhawyd bod cyswllt wedi ei wneud gyda nifer o grefyddau eraill i geisio cael enwebiadau ond nad oedd unrhyw ymateb wedi bod. Cytunwyd i barhau gyda'r gwaith a chysylltu gyda'r Brifysgol am gymorth.

Nododd y Cadeirydd ei siom nad oedd cworwm eto yn y cyfarfod hwn, er ymdrechion i hysbysu aelodau'r Pwyllgor am y cyfarfod, ond serch hynny ei bod wedi bod yn drafodaeth fuddiol. Atgoffwyd pawb am y Gynhadledd Maes Llafur sydd i'w chynnal 15 Chwefror, 2022.

**PENDERFYNWYD** Oherwydd nad oedd cworwm, nid oedd modd i'r Pwyllgor wneud penderfyniad ond diolchwyd am yr adroddiad drafft, a gwnaethpwyd ambell i awgrym. Nodwyd pryder am nifer y seddi gwag ar Bwyllgor CYSAG a'r angen i holi eto am enwebiadau i'r seddi hyn.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.15 p.m. a daeth i ben am 2.50 p.m.

**CADEIRYDD.**